# SL(5)433 Gorchymyn Rheilffyrdd Caerdydd a’r Cymoedd (Trosglwyddo) 2019

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu i Trafnidiaeth Cymru a Network Rail Infrastructure Limited ymrwymo i gynlluniau ar gyfer trosglwyddo rhai darpariaethau statudol a hawliau a rhwymedigaethau eraill sy'n ymwneud â rheilffyrdd craidd y Cymoedd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Orchymyn Rheilffyrdd Caerdydd a’r Cymoedd (Trosglwyddo) 2019 ("y Gorchymyn") o Network Rail Infrastructure Limited i Trafnidiaeth Cymru.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.7(v) – Gall Pwyllgor cyfrifol ystyried unrhyw faterion deddfwriaethol cyffredinol eu natur sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru, neu sy’n ymwneud â’r cymhwysedd hwnnw, a chyflwyno adroddiadau arnynt.**

Nid yw'r Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i weithdrefnau'r Cynulliad. Mae'n ymdrin â materion arwyddocaol ac yn dangos sut y gall offeryn heb weithdrefn wneud pethau sylweddol fel darparu ar gyfer cynlluniau sy'n trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o un cwmni i'r llall.

2. **Rheol Sefydlog 21.7(v) – Gall Pwyllgor cyfrifol ystyried unrhyw faterion deddfwriaethol cyffredinol eu natur sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru, neu sy’n ymwneud â’r cymhwysedd hwnnw, a chyflwyno adroddiadau arnynt.**

Mae Atodlen 1 i'r Gorchymyn yn cyfeirio at amrywiol ddeddfiadau nad ydynt ar gael yn hawdd ar-lein. Rydym wedi cael trafferth dod o hyd i'r rhain gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd, ac adnoddau y mae angen tanysgrifio iddynt (LexisNexis a Westlaw). Mae'n ymddangos y gellir cadw rhai deddfiadau yn Archifau Cenedlaethol Kew, ond mae'n anodd cadarnhau hyn gan fod y dogfennau a gedwir yn cael eu disgrifio mewn termau cyffredinol. Mae pryder o ran hygyrchedd y gyfraith, sydd wedi cyfyngu ar ein gallu i graffu'n llawn ar y Gorchymyn.

3. **Rheol Sefydlog 21.7(v) – Gall Pwyllgor cyfrifol ystyried unrhyw faterion deddfwriaethol cyffredinol eu natur sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru, neu sy’n ymwneud â’r cymhwysedd hwnnw, a chyflwyno adroddiadau arnynt.**

Mae anghysondeb rhwng testunau Cymraeg a Saesneg Atodlen 1, sy'n rhestru'r deddfiadau ar gyfer y rheilffyrdd y mae'r Gorchymyn yn ymwneud â hwy. Mae Deddf Rheilffordd Caerdydd 1897 ar goll yn y testun Saesneg. Nid ydym wedi gallu dod o hyd i Ddeddf Rheilffordd Caerdydd 1897 ac felly nid ydym yn glir a yw'r testun Saesneg neu Gymraeg yn gywir.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Pwynt dau: Mae’r llywodraeth yn nodi mater hygyrchedd. Fodd bynnag, drafftiwyd y Gorchymyn yn y ffordd hon oherwydd natur awdurdodiad y rheilffyrdd perthnasol, a’r angen i gyfeirio at y Deddfau unigol i ganiatáu trosglwyddo’r rheilffyrdd a awdurdodir gan y Deddfau hynny. Mae hyn yn sicrhau y cwmpesir pob elfen o’r rheilffyrdd dan sylw.

Fel rydych wedi nodi, cedwir y ddeddfwriaeth yn yr Archifau Gwladol, ac mae ar gael ar gais drwy dalu ffi. Mae’r ddeddfwriaeth hefyd ar gael yn llawn ar y gronfa ddata JustisOne, sef gwasanaeth sydd ar gael drwy danysgrifiad. Rydym yn cael ar ddeall ar sail gohebiaeth ddiweddar bod gan y Cynulliad fynediad i’r gronfa ddata hon.

Pwynt tri: Nodir a derbynnir y pwynt adrodd. Mae’r llywodraeth eisoes yn ymwybodol o’r gwall teipograffyddol hwn ac mae wedi cysylltu â chofrestrydd yr OSau i gywiro hyn drwy slip cywiro.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**6 Awst 2018**